**ASESIAD RISG CERDDED AFON**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwmni** | Urdd Gobaith Cymru | | |
| **Lleoliad** | Mae gweithgareddau Yr Urdd yn cael eu cynnal ar hyd a lled y wlad gan ddefnyddio cyfleusterau addas canolfannau hamdden/ysgolion/caeau chwarae cyhoeddus, gwersylloedd yr Urdd a tirwedd naturiol Cymru a thu hwnt. | | |
| | Mae Urdd Gobaith Cymru yn Gorff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol â dros 55,000 o aelodau rhwng 8 a 25 mlwydd oed. Rydyn ni'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol yn eu cymunedau. | | |
| **Cyfnod yr asesiad** | 1 Ionawr 2022 tan 1 Ionawr 2023 | | |
| **Cyfarwyddwr** | Sian Lewis | **Ffon** | 07826 000704 |

- Mae'r asesiad hon wedi ei pharatoi yn cyfeirio yn benodol at y risgiau sydd ynghlwm â gweithgareddau Yr Urdd
- Nid yw'r asesiad hwn yn disodli unrhyw reolau/canllawiau a osodir gan gyrff allanol ar y gweithgareddau, nac yr angen i gydymffurfio a'r gyfraith iechyd a diogelwch.
- Nid yw'r asesiad hwn yn disodli'r angen i wneud asesiadau risg deinamig drwy gydol pob gweithgaredd

Mae'r asesiad yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ynghlwm a'r ddarpariaeth o weithgareddau awyr agored yn y DU. Mae'n cyfeirio at y risgiau sydd yn wybodus i'r awdur. Credwn i'r asesiad fod yn addas ac yn ddigonol, ac os gweithredir y mesurau, yn lleihau'r risg i lefel derbyniol.

Os bydd unrhyw newid yn y wybodaeth , defnyddwyr neu newidiadau strwythurol i'r gweithgareddau a'i lleoliadau bydd rhaid adolygu'r asesiad hwn.

**Mae'r Asesiad Risg yma yn cofnodi risgiau sydd yn ychwanegol i'r hyn a nodwyd yn yr Asesiad Risg Generig Gweithgareddau yr Urdd**

**Mae modd ychwanegu unrhyw risgiau ynghlwm a safleoedd sbesiffig ar y ddogfen yma yn y bocs SAFLE SBESIFFIG**

| | |
|---|---|
| Paratowyd gan: | Geraint John Williams – Arwel phillips |

| Cerdded Afon | |
|---|---|
| **RISG i BWY?** | Staff yr Urdd, Gwirfoddolwyr, Grwpiau ac unigolion sydd yn cymryd rhan yn y sesiynau |
| **RISG** | **MESURAU RHEOLI** |
| Llithro a syrthio  mwy na 2m | Defnyddio technegau priodol. Goruchwyliaeth wrth ddringo. |
| Troed yn sownd mewn creigiau | Rhagrybuddio cyfranogwyr o’r peryglon.  Esgidiau addas |
| Llygredd | Gwirio’r dwr yn gyson.  Adrodd yn nol unrhyw lygredd gweledol |
| Cryfder dwr | Gwirio Tywydd, sicrhau fod y daith yn addas i gallu grwp |
| Gwrthrychau miniog ar waelod/ochr afon | Gwisg addas/ Esgidiau pwrpasol. Goruchwyliaeth |
| Gwrthrychau’n disgyn (impact Injuries) | Hyfforddiant cyn neidio<br>Peryglon wedi ei gwyro cyn mynd i mewn i’r dŵr.   Gwirio y ceunant yn gyson.  Symud unrhyw wrthrychau a all fod yn beryglus |
| Neidio o uchder | Gwirio dwr. Neidio o fannau addas a benodwyd yn unig. Hyfforddiant neidio cywir. |
| Methiant Offer neu angor | `Offer ar y safle’ wedi cael ei wyro.<br>Lle’n bosib ddylai defnyddio offer priodol wrth gefn |
| Sbwrlas | Gwirio’r dwr yn gyson / cryfder y dwr |
| Hyfforddwr yn brifo | Rhoi Gwybodaeth ir Gwersyllwr o leoliad ffon symudol a goriadau cerbyd |

| SITE SPECIFIC – CERDDED AFON | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad** | **Risg ychwanegol** | **Mesurau rheoli** |
| Afon Ddu Rhan Isa | ''Pen ol yr Eliffant' perygl llithro lawr y slab<br>Pyllau bas uwch ben 'pen ol yr Eliffant'<br>Ardaloedd lle mae posib syrthio o uchder<br>Mae coed wedi symud ar y rhaeadr cyntaf – ar ol y pwll cyntaf mae'r tir ar yr ochr '*river left'* yn fregus iawn felly mae'n bwysig osgoi yr ochr yma ar bob lefel dwr.<br>Top y 'Narrows' – goruchwyliaeth manwl ar y rhan yma gan fod perygl o lithro a disgyn dros yr ochr yn uchel. | Gwirio lefel y dwr, goruchwyliaeth manwl<br>Gwirio dyfnder a spotio fel bod angen<br>Canllawiau clir / defnydd o raff / spotio pan bod angen.<br>Goruchwyliaeth wrth unrhyw glogwyni bychan |
| Afon Ddu Rhan Uchaf | Dringo heibio y rhaeadr fawr.<br>Posib syrthio o uchder mawr<br>Rhan Uchaf yn cynnwys mannau llithrig a serth<br>Pwll neidio, nofwyr blinedig | Spotio addas a defnydd o raff ,<br>Goruchwyliaeth cyson<br><br>Spotio addas a defnydd o raff,<br>Goruchwyliaeth cyson<br>Gwirio y pwll goruchwylio pob naid |
| Afon Arran | Slab llithrig mawr fflat.<br>Wifren bigog ar draws yr afon<br>1. Coed wedi syrthio | Goruchwyliaeth manwl<br>Cerdded o amgylch y wifren<br>Gwrio coed<br>2. |

| SAFLE SBESIFFIG – CERDDED AFON | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad** | **Risg ychwanegol** | **Mesurau rheoli** |
| Afon Maentwrog | Ardal y sleid (gweler ffeil gwybodaeth defnyddiol i hyfforddwyr)<br>Hyfforddwr yn glanhau rhaffau ac angorau<br>Hyfforddwr yn dringo o gwmpas y gornel uwchben y rhaeadr olaf<br>Clogwyni serth yn agos i rhai o'r pwyntiau mynediad i'r afon | Defnyddio rhaffau a system 'cows tails' i amddiffyn y darn yma<br>Hyfforddwr i ddefnyddio teclyn belaio i amddiffyn ei hun yn dod i lawr tra'n glanhau'r rhaffau ac angora<br>Rhaid cymryd gofal yn dringo o gwmpas y darn yma, er mwyn arbed 'swing' mawr (pendulum).<br>Rhaid briffio grwp o'r perygl a cadw rheolaeth grwp llym os yn defnyddio'r ardaloedd yma i ddangos yr afon/ neu fel pwynt mynediad. |
| Bwlchgwyn | Cerbydau ar y bont<br><br>Chwarel – Wedding Caves<br><br>Twnnel | Sustem gwirio traffig<br><br>Dilyn asesiad risg Chwarel dan ddaear lefel 0<br><br>Gwirio mynediad y twnnel cyn mentro – Edrych am unrhyw symudiad tir ffres wrth yr agoriad. Gwirio lefel y dwr cyn mentro. 6 cyfranogwr + hyfforddwr i fentro y twnnel ar y tro. Gwisgo PPE Cerdded afon a torch i bawb. |
| Afon Dwrnudon | Dim mewn defnydd ar hyn o bryd | |
| Afon Mellte a Sychryd | Gwaith metal yn y dwr a glannau'r afon<br><br>Cerrig rhydd ar bwys mynedfa i'r ogof<br><br>Darn o'r tir wedi syrthio<br><br>Cerrig ar platfform 'Looney's Leap' yn rhydd<br><br>Adar yn nythu yn y wal is lawr i'r 'jacuzzi' | Dealltwriaeth o'r safle. Dilyn canllawiau SWOAPG<br><br>Cadw i ffwrdd o ochr yna'r afon. Cadw i ffwrdd o'r ogof<br><br>Defnyddio'r bolts newydd i rhoi rhaff diogelwch i helpu'r grŵp<br><br>Osgoi neidio o ble mae'r carreg wedi syrthio. Defnyddio darn arall o'r platfform.<br><br>Osgoi y wal os ydy'r nyth/ adar yna |

**GWEITHDREFNAU SAFONOL – Cerdded Afon**

**Mi fydd Hyfforddwyr yn dilyn trefn sesiwn tebyg i'r isod**

**Siaced Achub** – lliw siaced yn cyfateb ir maint a pa un sydd yn addas ir cyfranogwr. Sut i wisgo a tynhau o
**Helmet** (*pe bai angen ar weithgaredd)* Lliw helmet yn cyfateb i maint yr helmet, a pa un sydd yn addas ir cyfranogwr. Sut i wisgo a tynhau o
**Esgidiau –** Hyfforddwyr i sicrhau fod cyfranogwyr yn gwisgo esgidiau addas ar gyfer weithgaredd. H.Y. Esgidiau sydd yn gallu cau yn dyn, yn gorchuddio'r troed cyfan, ac yn cynnig cefnogaeth i'r ffêr.
**Gemwaith** – Hyfforddwyr i sicrhau fod cyfranogwyr i dynnu unrhyw gemwaith cyn mynd i rafftio.

Ar ôl cyrraedd yr afon mi fydd yr hyfforddwr yn rhoi cyflwyniad i'r gweithgaredd sydd yn debyg i'r isod:

1. Hyfforddwr I wirio lefel y dwr yn dilyn tywydd gwael – Ymweld a'r afon cyn cyfarfod bore
2. Hyfforddwr i annog cyfranogwyr i gadw gyda'i gilydd yn yr afon
3. Cyfranogwyr i rhoi cymorth i'w gilydd yn ystod y daith, hyfforddwr i dangos technegau gwahanol yn cynnwys spotio, gafael mewn breichiau siaced achub a cadw isel a defnyddio breichiau i cadw cydbwysedd
4. Hyfforddwr i rhybuddio grwp ar dechrau sesiwn o perygl o llithro, ac esbonio sut i adnabod creigiau llithrig
5. Cyfranogwyr i ddilyn cyfarwyddiadau wrth glanio ar ôl naid/sleid
6. Pam yn bosib mi ddylai annog cyfranogwyr i cerdded gwrs yr afon i osgoi ardaloedd sydd a tyfiant naturiol
7. Fe gall yr amser mae cyfranogwyr gwario mewn dwr dwfn yn cael ei leihau mewn tywydd oer
8. Hyfforddwr i gwirio unrhyw pwyntiau diogelwch coed / bolts a cefnogi y pwyntiau yma gyda offer diogelwch os a pan bod angen
9. Hyfforddwr i wirio pob pwll a sleid cyn mentro am unrhyw beryglon cudd


**Bwlchgwyn Sbesiffig**

**Ardal is law or chwarel cyn y rhaeadr fawr (pwynt 1 ar y map isod)**

1. Staff i asesu gallu y grŵp ar sail eu perfformiad hyd at pwynt 1. Mae modd gosod unai 'handline' neu 'lower off' yn ddibynnol ar anghenion yr unigolion.

**Rhaeadr Fawr**

1. Rhaid rigio y rhaeadr fel a ddangoswyd isod




2. Hyfforddwr i rigio fel bod modd gwêl yr unigolyn yr holl ffordd i lawr y rhaeadr.
3. Awgrymir bod unigolion yn mynd i lawr y rhaeadr ar y pen-ôl nes ydyn yn cyrraedd pwynt lle mae y dwr yn disgyn yn rhydd.
4. Ar y pwynt lle maer dwr yn disgyn yn rhydd, awgrymir bod unigolion yn roilio ymlaen ar y bol ac yna yn gwneud eu ffordd i lawr y rhaeadr.
5. Twnnel Dwr – Hyfforddwr i asesu mynediad y twnnel cyn mentro i wirio unrhyw symudiad tir ffres.
6. Hyfforddwr +6 person ar y ro i fentro ir rhaeadr ym mhen y twnnel. Pan mae y grŵp cyntaf yn cerdded yn nol gall yr ail grŵp mentro lawr y twnnel. Mae lle i grwpiau groesi yng nghanol y twnnel.


Twnnel Dwr
Dihangfa
Rhaeadr Fawr
Dihangfa
Pwynt 1 - 'Handline' neu 'lower off' yn ddibynnol ar gallu y grwp
Dim ffordd o ddianc y rhan yma or afon – Dihangfa agosaf ydi y bont neu wrth y chwarel
Chwarel
(Wedding Caves)
Dihangfa
Abseil Bont
Parcio
Woodlands
Ffrith
Glascoed Road
Glascoed Road
Waen
Farm

Urdd